# y dinesydd

Ebrill 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 217


# Sialens i Elin - ac i'n darllenwyr!

Ar 26 Mai bydd Elin Angharad Evans o Lys-faen, Caerdydd yn dechrau ar daith, y sialens fwyaf yn ei bywyd. Bydd yn teithio i Israel i gymryd rhan yn 'Hike Away' er mwyn codi arian i SCOPE, y Spastics Society gynt. Bydd 46 o bobl o wahanol gefndiroedd ac oedrannau o Brydain gyfan yn cerdded am wythnos o Massada trwy En Gedi, heibio i'r Môr Marw i Mitzpe Mishmar, taith fydd yn mynd dros dir caregog, bryniau serth a thrwy anialdir - y cyfan yng ngwres tanbaid Israel. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Elin yn treulio oriau lawer yn hyfforddi a pharatoi ar gyfer y daith.

Mae 1 o bob 400 plentyn ym Mhrydain yn cael ei eni gyda Cerebral Palsy. Gall ddigwydd i unrhyw blentyn. SCOPE yw'r elusen fwyaf ym Mhrydain sy'n gweithio gyda phobl anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r 'Hike Away' i Israel yn cael ei drefnu yn bwrpasol i godi arian. Mae Elin wedi addo codi £3,000 ac wedi cyfrannu £200 ei hun, ond mae hi angen help i gyrraedd ei tharged. Meddai, "Rydw i'n cymryd y sialens yma o ddifri - dwi ddim eisiau siomi fy noddwyr ac yn bwysicach dwi ddim eisiau siomi y rheiny sy'n dibynnu gymaint ar wasanaethau SCOPE. Mae SCOPE yn bodoli i helpu y rheiny â Cerebral Palsy i fyw bywydau llawn a gwerth chweil, ac arian sy'n rhoi'r pŵer iddynt allu sicrhau hyn".



Os gallwch helpu Elin, a SCOPE, mewn unrhyw ffordd cysylltwch ag Elin ar 01222 496052 neu drwy ysgrifennu ati yn 6 Ridgeway, Llys-faen, Caerdydd, CF4 5RR. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i SCOPE. Os hoffech fwy o fanylion am yr 'Hike Away', ffoniwch 01345 69 79 69.

* * *

**22 MAI, 1996**

BLE FYDDWCH CHI?

Chwarae sgitls, ymarfer Cerdd Dant, yn yr ardd...?

NAGE! - Yng nghyfarfod blynyddol *Y Dinesydd*.


Amser a lle i'w cadarnhau.

Dewch i roi eich barn!

# Llygad y Dydd
## gan Kathleen Wood

Mae Kathleen yn perthyn i Gapel y Crwys, Caerdydd. Ar Chwefror 29, cafodd Cymdeithas y Capel ginio i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Dewi Sant. Yr oedd hwn yn gyfle i Dr. John Gwynfor Jones, athro Ysgol Sul a darlithydd Hanes ym Mhrifysgol Cymru, Coleg Caerdydd, gyflwyno copi cyntaf y nofel i Kathleen.

Nofel hanesyddol yw *Llygad y Dydd* am Marged o Anjou, merch 15 oed o Ffrainc sydd yn mynd i briodi Harri'r 6ed, Brenin Lloegr.



Kathleen gyda Dr John Gwynfor Jones *Llun: Robin Griffith*

# Y Dinesydd

**Ebrill 1996, Rhif 217.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd* gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Mai at un o'r canlynol erbyn 22 Ebrill:**

Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.

Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.

Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.

Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.

Y Parchedig Gwilym E. Davies, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**

Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 3 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pob un sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## DIOLCH AM GYFRANIAD ARIANNOL

Diolch i Eglwys Annibynnol Ebeneser am ei rhodd hael o £10 at goffrau'r *Dinesydd*. Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

## Calendr y Dinesydd

**24 Ebrill**
Cwlwm Busnes Caerdydd: Cinio Anffurfiol am 12.30 yn Churchills, Llandaf.

**25-26 Ebrill**
Adran Addysg Barhaol ac Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Cymru, Caerdydd: Ysgol Ddeuddydd ar Gymru a Byd Addysg yn Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum. Manylion pellach gan y Cynullydd, Dr J. Gwynfor Jones (01222-874000), neu'r Adran Addysg Barhaol (01222-874832).

**27 Ebrill**
Eisteddfod Cwm Rhondda yng Nghanolfan Chwaraeon Pendyrys (Tylorstown) rhwng 11.00. a 7.00. Bydd gala glowyr a gorymdaith yn y bore.

**11 Mai**
Cymrodorion Caerdydd: Y Wibdaith Flynyddol. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-625785).

**20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynyddol, ac anerchiad gan Eleri Morgan, yn festri capel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30.


**3 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-620487).

**1 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pentymor. Siaradwr: Havard Gregory. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-620487).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
*E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 149** **Mawrth 1996**



**Ar Draws**

7. Cafwyd llestri cain gynt o'r nant yma. (4)
8. Perygl Trawsfynydd. (10)
10. Yr amaethwyr fel dosbarth. (1,7)
11. Cyflwr y ferch sy'n dweud nad oes ganddi ddim i'w wisgo? (6)
12. Sicr a difeth yw ei gyffyrddiad, a byddai yn sbwylio'r cyfan o newid y drefn. (6)
13. Sefyllfa a all beri niwed neu golled. (8)
15. Gellir perswadio A.R. i ganu dri bar er ei fod mewn cyflwr nerfus iawn. (2,5,1,5)
18. Lluest y llymeitwyr. (8)
20. Gofalaeth y bugail. (6)
22. Glaw yn troi yn fesur gwlyb. (6)
24. Byddid yn gostwng. (8)
25. Arolygu mewn ffordd sy'n peri i lu o wŷr gochi. (10)
26. Trefn sy'n gyflawn ynddi ei hun. (4)

**I Lawr**

1. Mae'n derbyn yn llawn yr hyn sydd ei angen arno, fel un o weision tad yr afradlon. (4,2,4)
2. Actio. (6)
3. Hyhi sy'n gofalu bod pawb yn cyrraedd yn ddiogel. (8)
4. Baich y dyn tew. (6)
5. Y mae'n ymateb. (8)
6. Pennaeth y cabidwl. (4)
9. Cynhaliaeth cyson. (4,9)
14. Diffyg synnwyr cyffredin ar ei rhan pan wnaeth Nain beth eon. (10)
16. Sawl budr sy'n codi o'r fath agwedd twyllodrus. (8)
17. Trafodaethau'r Senedd, er enghraifft. (8)
19. To'r ystafell wedi ei faeddu gan frwynen fwdlyd. (6)
21. Gorchwyl ansicr iawn yw hau mes ar wasgar. (6)
23. Pan ddechreuodd y gynulleidfa fechan addoli yn 'long-room' y dafarn, fe ysgrifennodd rywun linell gynganeddol "____ i Dduw yn lle'r ddawns". (4)

**CYSTADLEUAETH RHIF 148**

Daeth tri chynnig ar ddeg i law. Yr oedd gwall bach mewn pedwar ohonynt a'r gweddill yn hollol gywir, er gwaethaf cambrint yn nifer y llythrennau i dri chliw.

Yr enw a dynnwyd i dderbyn y tocyn llyfr oedd Elan Griffith, 47 Fields Park Road, Casnewydd, Gwent, ac mae'r tocyn llyfr eisoes ar ei ffordd iddi.

Daeth yr wyth ymgais cywir arall oddi wrth: Alun Ogwen, Cyncoed; E. Haydn Thomas, Rhiwbina; Bryn Jones, Llangynnwr; Huana Simpson, Y Bont-faen; Dilys Gunston, Pen-y-lan; T. Arfon Owen, Llandaf; Michael Francis, Casnewydd; a Marged Davies, Llandaf.

**CYSTADLEUAETH RHIF 149**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd ap Lewsyn erbyn 22 Ebrill os gwelwch yn dda.




## PENARTH A'R CYLCH

Llongyfarchion i Desmond James sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 50 oed.

Dymuniadau da i Mrs Margaret Randall o Ddinas Powys a gafodd ddamwain ger ei chartref yn ddiweddar. Mae'n cael triniaeth i'w hanafiadau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, a gobeithiwn ei gweld o gwmpas ei phethau'n fuan.

Cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yng Nghapel Bethel ddechrau Mawrth ar thema ein Nawddsant.

Yn ystod y Grawys bu aelodau Bethel yn cefnogi ymdrech 'Cytûn' i drefnu cinio cawl a bara caws yn Eglwys yr Holl Saint. Aiff yr elw i gyd i Gymorth Cristnogol.

Bob pnawn dydd Mawrth bydd Grŵp Ti a Fi yn cwrdd yn Neuadd Glyndwr, Penarth. Yno hefyd mae Ysgol Feithrin yr Enfys, sy'n gwasanaethu ardal Heol Redlands a Larnog, a cheir pum sesiwn yr wythnos. Mrs Jenny Ford yw arweinydd y Cylch, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Jan Roche a Mrs Debbie Haswell.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBINA

Cyfarfu Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda noson o gawl a chân. Diolch i Mathew o Goleg Mihangel Sant am ein difyrru.

A'r Sul canlynol cafwyd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Alun Guy. Yr organydd oedd John Howells gydag offerynwyr o Ysgol Glan-taf a darlleniadau o'r Beibl gan Meinwen Guy. Diolch i bawb am noson gofiadwy iawn.


## CYMDEITHAS Y CYMOD

Bydd cell Caerdydd o Gymdeithas y Cymod yn cwrdd yng Nghanolfan Cymorth Cristnogol, 27 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd am ddeg o'r gloch, fore Llun, 22 Ebrill. Mae croeso cynnes i bawb.

Trafodir adroddiadau ar y gynhadledd arbennig a gynhaliwyd yn Llanbed ar 28-30 Mawrth. Os am ragor o wybodaeth am y gynhadledd hon, cysylltwch â Nia Rhosier (01938) 500631.

**LLONGYFARCHION** i Einir, sydd ar hyn o bryd yn gweithio i Gomisiwn Staff Cymru yn Llandaf, ar gael ei phenodi i swydd yn S4C. Dymuniadau da iddi yn y gwaith newydd.

**RHAID** bod swydd Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith yn dygymod â rhai pobl, oherwydd mae'r deiliad presennol, John Walter Jones, wedi llwyddo i gyrraedd ei hanner cant oed. Llongyfarchion i'r hen ŵr.




**YMDDEOLIAD** Pob dymuniad da i Non Davies fydd yn ymddeol yn gynnar o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Pen-y-garth ddiwedd y tymor.

**CHWARTER** canrif sydd ers i Peter ac Elinor Elias Jones briodi. Byddant yn dathlu eu priodas arian ar 10 Ebrill ar fwrdd llong rywle rhwng Dinas Powys a'r Aifft. Llongyfarchion wrth eu miloedd ffrindiau yn ardal Caerdydd.

**MAE** Helen Phillips wedi ei phenodi i swydd gyda'r Brifysgol Agored i ofalu am addysg Gymraeg. Y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yw ardal enedigol Helen, a bu'n gweithio yn y BBC am gyfnod cyn mynd i Orllewin Morgannwg i gyfieithu. Croeso nôl iddi.

**CROESO** hefyd i Geraint Wyn, mab Christine a Dylan, 21 Heol Heathfield, a aned ar 23 Chwefror, ŵyr arall i Valmai Evans, Heol Don. Mae ganddo lais da yn barod!

**MAE'R** Parchedig Alan Pickard wedi ei wahodd i ofalu am Eglwys Mynydd Seion yng Nghasnewydd. Dechreuodd ar ei ddyletswyddau ddechrau mis Mawrth, a dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei ofalaeth newydd.

**CYDYMDEIMLO** Bydd y genedl gyfan yn cydymdeimlo â theulu Dewi Bebb, a fu farw mor ifanc ar ôl salwch creulon. Yr oedd y dyrfa niferus a ddaeth ynghyd i dalu'r deyrged olaf iddo yn dystiolaeth amlwg o'r lle arbennig a oedd iddo yng nghalonnau ei lu cyfeillion a'i gydnabod. Anfonwn ein cofion at ei weddw, ei ddau fab a'i deulu i gyd.

**CYDYMDEIMLWN** hefyd â theulu Buddug Lloyd, a fu farw'n ddiweddar ar ôl salwch blin. Buasai'n athrawes boblogaidd ar genedlaethau o blant yn ardal Caerdydd. Ar ddiwrnod oer, digysur o Fawrth, daeth tyrfa fawr o gyfeillion ynghyd i'w hangladd yng Nghapel y Crwys, lle'r oedd yn flaenores.

## DIGWYDDIAD O BWYS BYD-EANG - O L.A. I LANDAF

*DECHRAU DRAMATIG I WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 1996*

Beth sydd gan wragedd Indiaidd o Ganolbarth America, Eglwysi Cadeiriol Cymru a phrif actor "Hedd Wyn" yn gyffredin?

Yr ateb yw drama newydd wefreiddiol Gareth Miles "Byd y Banc" a fydd yn teithio o gwmpas Eglwysi Cadeiriol Cymru (Bangor, Tyddewi a Llandaf) ddiwedd Ebrill/dechrau Mai.

Bydd Huw Garmon (Hedd Wyn) yn aelod o'r cast ynghyd â Jeremi Cockram, Siân Summers, Rhodri Evan ac Arwel Gruffydd.

Dim ond dau berfformiad a roddir ym mhob Cadeirlan - Cyfle unigryw i fod yn rhan o ddigwyddiad gwreiddiol, anturus a dadleuol.

Manylion y daith :
**Eglwys Gadeiriol Bangor - 26 a 27 Ebrill, '96 - 8.30 o.g.**
**Eglwys Gadeiriol Tyddewi - 3 a 4 Mai, '96 - 8.30 o.g.**
**Eglwys Gadeiriol Llandaf - 10 a 11 Mai, '96 - 8.30 o.g.**

Manylion pellach, tocynnau ac i drefnu cyfweliadau cysylltwch â:
Lis Perkins - 01248 361267
Judith Humphreys - 01222 614435
Tom Defis - 01792 644776
Siop Siân, Crymych - 01239 831230

## MARW MR HANDEL MORGAN

Ganol mis Chwefror bu farw Mr Handel Morgan yn 90 oed, ychydig wythnosau'n unig ar ôl ei briod, Heulwen. Soniwyd eisoes yn *Y Dinesydd* am ei gwaith da hi (ynghyd â'i phriod) dros y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Ysgolion Cymraeg yn y ddinas dros nifer fawr o flynyddoedd.

Gŵr a fagwyd yng Nghwm Rhondda oedd Mr Morgan a dechreuodd ar ei yrfa fel llywydd myfyrwyr yn y Coleg Hyfforddi Athrawon yng Nghaerdydd. Am flynyddoedd fe fu'n athro gwyddoniaeth yn Ysgol Lewis, Pengam ac wedi hynny fe fu'n ddarlithydd yng Ngholegau Hyfforddi Wrecsam a Chaerdydd. O 1950 ymlaen roedd yn swyddog ymgynghorol i fyfyrwyr Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd. Rhan o'i waith yn y swydd bwysig hon oedd adeiladu cofrestr o letyau cymeradwy i fyfyrwyr yn y ddinas.

Cydymdeimlir yn ddwys â'r holl deulu yn eu galar o golli tad a thaid annwyl.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchion i Eleri Coslett, Y Mynydd Bychan, ar gipio swydd gyda McKennas, y cyfreithwyr rhyngwladol. Ei thasg yw gosod swyddfa i fyny iddyn nhw yn Almaty, prifddinas Kazakhstan, ddim mor bell â hynny o'r ffin rhwng Rwsia a China.


Eleri Coslett

Mae Eleri'n 25 oed ac yn ferch i John a Myfi Coslett. Enillodd ei gradd (gydag anrhydedd) mewn Rwsieg ac Almaeneg ac mae hefyd yn siarad Ffrangeg yn rhugl. Ei gallu i drin ieithoedd mor ddeheuig a droes o'i phlaid yn y swydd bwysig hon lle bydd yn gorfod ymgodymu â phroblemau cleientau mewn sawl iaith.

Cymraeg yw ei hiaith gyntaf, wrth gwrs, ac roedd yn un o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bryntaf pan oedd ar y Paréd. Wedi hynny.aeth i Ysgol Uwchradd Glantaf.

Cyn mynd i Brifysgol Caerfaddon, cymerodd flwyddyn i ffwrdd o fyd addysg ffurfiol gan fynd i fyw a gweithio yn yr Almaen. Treuliodd flwyddyn hefyd yn Kharkov yn yr Iwcraen fel rhan o'i chwrs prifysgol.

Gobaith *Y Dinesydd* yw y cawn lythyr gan Eleri o Almaty yn y man.

## DYDDIAU DEDWYDD

Gyda'r blynyddoedd mae nifer o bobl ifanc Cymru wedi treulio cyfnodau mewn colegau yng Nghymru, nifer fawr ohonyn nhw'n siarad Cymraeg. Un o'r colegau mwyaf poblogaidd gan lawer oedd Coleg Addysg Caerdydd ac mae'r rhai oedd yno o 1968 tan 1971 yn bwriadu trefnu aduniad. Y dyddiad pwysig yw 14 Medi 1996. Os ych chi am fanylion pellach, cysylltwch â Mr John Jenkins yn Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NW.

## SWPER DEWI SANT

Fe gafwyd noson ardderchog yn swper Dewi Sant yn Eglwys Dewi Sant eleni, y festri'n llawn, a'r arlwy'n flasus.

Ond i goroni'r cyfan, cafwyd gwledd o sgwrs gan ein gwraig wadd, Mrs Eleri Rogers. Fe'n tywysodd i fyd a bywyd diddorol Arglwyddes Llanofer (Gwenynen Gwent) testun na ellid mo'i well ar noson dathlu gŵyl ein nawddsant!

## EISTEDDFOD SALEM, CANTON




Daeth aelodau'r Gadwyn ynghyd ar nos Fercher, 28 Chwefror, yn barod am noson o gystadlu brwd. Bu capteiniaid y ddau dîm yn annog eu cefnogwyr i fynd ati i ysgrifennu, cyfansoddi, coginio, arlunio ac ymarfer y testunau llwyfan ers wythnosau, ac roedd ffrwyth eu llafur i'w weld yn festri Salem ar noson yr eisteddfod. Yno ar y byrddau yr oedd y lluniau, y pice ar y maen a'r torthau o fara brith. Yno hefyd yr oedd y gwisgoedd a chelfi'r gân actol, yr offerynnau, y cystadleuwyr nerfus, y beirniaid profiadol a doeth - a'r hwyl cyfeillgar a chartrefol sy'n gwneud eisteddfod lwyddiannus.

### *Barn y beirniaid*

Cawsom noson fendigedig yng nghwmni ein gilydd, yn rhannu'r sbort o adrodd jôcs, o glywed y beirniad llên, Mrs Mallt Anderson, yn cloriannu'r limrigau ac yn diffinio'n feistrolgar y gwahaniaethau sylfaenol rhwng brysneges a brawddeg, ac yn ein swyno gyda'i darlleniadau o rai cerddi. Cawsom ein llongyfarch gan y beirniad cerdd, Mrs Heulwen Jones, am ddewis beirniad Annibynnol iawn, cyn iddi gyfaddef ei bod yn tueddu i ffafrio unrhyw gystadleuydd a gynhwysai'r gair 'heulwen' yn ei gân!

### *Hen sant yn horisontal!*

I rai o'r gynulleidfa, uchafbwynt y noson efallai oedd gweld y gweinidog ar y goriwaered (lawr sleid yr ysgol feithrin, fel mae'n digwydd : peidiwch â gofyn!) Ond trwy'r sbri i gyd roedd pethau oedd yn cyffwrdd â'r teimladau mewn ffordd gofiadwy iawn: lleisiau pêr rhai o'r unawdwyr, dawn rhai o'r offerynwyr, rhai'n adrodd salm, gyda dealltwriaeth a dwyster sy'n mynd ymhellach na thechneg adroddwr effeithiol. A thrwy'r cyfan, yr ymdeimlad o berthyn, o'r gymuned Gristnogol, o'r ysbryd sy'n dod â ni ynghyd yn ein haddoliad, yn ein cadw ni'n deulu ac yn rhoi gwefr i'n hwyl eisteddfodol.

## CYMRODORION CAERDYDD

Nos Wener 23ain Chwefror fe gyfarfu'r Cymrodorion yn Neuadd Aberdâr i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Wedi pryd blasus o fwyd fe gafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol gan y Prif Westai, Mr Huw Thomas, prifathro Ysgol Glantaf. Byrdwn ei neges oedd addysg Gymraeg yn y bröydd hyn a'r llinyn arian sydd wedi rhedeg trwy'r gweithrediadau o'r cychwyn.

Fe gyflwynwyd yr adloniant gan ei briod, Siân, a diolchwyd yn gryno iawn i bawb a gymerodd ran gan yr Is-lywydd, Dr Dewi Eirug Davies. Oherwydd anhwylder methodd ein hysgrifennydd, Y Parchedig Ifor Rees fod yn bresennol. Dymunwn iddo adferiad buan. Llywyddwyd y noson gan Lywydd y Cymrodorion, Mr Eurig Evans.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym E. Davies

## CINIO GŴYL DDEWI, CAPEL SALEM, CANTON

Mentrodd aelodau'r Gadwyn, cymdeithas Capel Salem, mor bell â'r Bontfaen eleni i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Daeth rhyw 50 ynghyd i fwynhau pryd blasus iawn yng Ngwesty'r Arth, a phopeth wedi ei drefnu'n effeithiol iawn.

Pleser arbennig oedd croesawu un ohonom ni, sef y Br. Arfon Haines Davies, i'n plith ni fel gŵr gwadd y noson. Cawsom anerchiad cofiadwy iawn ganddo - a hynny er gwaethaf cors o annwyd a dracht da o 'Night Nurse' medde fe, cyn gadael y ty!

Wedi cael Eisteddfod a chinio Gŵyl Ddewi llwyddiannus iawn eleni, dim ond un achlysur sydd ar ôl yng nghalendr y Gadwyn - y wibdaith flynyddol. Mae manylion y daith yn ddirgelwch, wrth gwrs, ond caiff aelodau'r Gadwyn y dyddiad a'r amser maes o law. Os hoffech wybod mwy - dewch i Salem gyda'r Sul!

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG TABERNACL Y BARRI

Fore Sul, 18 Chwefror, bedyddiwyd Catrin Milne, merch Ceri a William Milne, ac wyres John ac Elisabeth Williams.

Ddiwedd Ionawr, bu farw Mrs Margaret Griffiths, gweddw'r diweddar Barch. T. Huw Griffiths a fu'n weinidog yn y Tabernacl am 28 o flynyddoedd. Daeth tyrfa luosog ynghyd yn y capel ar brynhawn Llun, 5 Chwefror, mewn oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith.

Dyddiad pwysig i holl wragedd yr Eglwysi Annibynnol - **Sadwrn, 20 Ebrill** - cynhelir Cyfarfod Blynyddol Mudiad Chwiorydd Talaith y De yma yn Nhabernacl Y Barri i ddechrau am 2.30 p.m.

## BETHEL, RHIWBINA

Yn ystod mis Chwefror cafodd aelodau Bethel, Rhiwbeina, y cyfle i groesawu i'n plith Andrea Sims, merch ifanc o ardal Croesoswallt sy'n dymuno gweinidogaethu oddi mewn i eglwysi Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd. Treuliodd rai wythnosau gyda'r gweinidog, Parch. Pamela Cram ac fe gymerodd bob cyfle i ddysgu Cymraeg.

Croesawyd aelodau Bethel i wasanaeth Cymraeg yn Eglwys Fethodistaidd Rhymni yn Wentloog Road, 25 Chwefror. Cymerwyd y rhannau agoriadol gan Mrs Tamsin Llwyd Graves a phregethwyd gan y Parch. Pamela Cram.

Braf oedd cael croesawu Mrs Iola James, Cyncoed a Mr Robert Davies, Penylan yn ôl i Fethel - y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. A dymunir gwellhad buan i Mrs Owena Hopwood, Penarth.

## EBENESER, HEOL SIARL

Eleni rydym fel eglwys wedi dewis casglu tuag at elusen clefyd Parkinson. Yn ystod y tair blynedd cynt casglwyd gennym £7,000 tuag at Bobath, Motor Neuron ac Alzheimer. Mae gennym bwyllgor trefnu yn gweld na fydd y gweithgareddau yn gwrthdaro ac fe fyddwn yn cadw at ein gwahanol raglenni arferol am y flwyddyn.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yn Ebeneser yng nghwmni Côr Merched y Garth a Chôr Plant Caerdydd ar 5 Mawrth - elw'r noson i glefyd Parkinson.

## EGLWYS MINNY STREET

Mewn Cwrdd Eglwys fis Ionawr cyhoeddwyd bod Iwan Jones am roi'r gorau i'w gyfrifoldebau fel Ysgrifennydd yr Eglwys yn y Gwanwyn. Rhoes Iwan, a'i briod Nansi, flynyddoedd o wasanaeth amhrisiadwy i'r Eglwys. Gwyddom hefyd y byddant yn gefn cadarn i'r ddau a ddewiswyd i olynu Iwan, sef Dr. Bethan Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol) ac Arwel Thomas (Ysgrifennydd yr Adroddiad Blynyddol). Diolchwn yn ddiffuant iawn i Iwan a llongyfarchion a dymuniadau gorau i Bethan ac Arwel.

Yn Chwefror bedyddiwyd tri o fabanod: Ieuan Lloyd, mab Simon a Helen King (Rhiwbina); Ifan Glyndwr, mab Aled a Rhian Samuel (Pontcanna); a Thomas Meirion Iwan, mab Michael ac Olwen Jeffs (Llandaf). Cyfarchion cynhesaf i'r tri theulu.

## ENGLYNION ARCHDDERWYDD

Yn rhifyn Ionawr/Chwefror o'r *Dinesydd* fe nodwyd y ffaith fod y Parchg. Cynwil Williams wedi bod yn weinidog ar Eglwys y Crwys am ugain mlynedd lawn. Fe ddathlwyd yr achlysur gan yr eglwys trwy gynnal cyfarfod teyrnged iddo, wedi'i drefnu gan Y Gymdeithas ar nos Wener, 26 Ionawr. Llywyddwyd y noson yn urddasol, ond gyda chryn dipyn o hiwmor, gan Garwyn Davies, Cadeirydd y Gymdeithas. I ddechrau fe wahoddodd y Gweinidog i lwyfan y Theatr i eistedd yng nghadair eisteddfod Pumsaint 1938, cadair a enillwyd gan dad-yng-nghyfraith Garwyn. Yna fe alwyd ar Mrs Carol Williams i'r llwyfan. Roedd hi'n siwr fod pobl y Crwys yn gwybod erbyn hyn nad yw prydlondeb yn un o brif rinweddau'i phriod. Ar ddydd ei phriodas fe gyrhaeddodd hi Eglwys y Betws, ond nid oedd sôn am y priodfab. Wedi i'r ficer chwilio tipyn, fe ddaethpwyd o hyd iddo ef a'r gwas priodas yn y festri!

Y gwestai nesaf oedd y gwas priodas hwnnw, neb llai nag Archdderwydd Cymru, y Parchg. John Gwilym Jones a oedd wedi dod yn unswydd yr holl ffordd o Fangor i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Fe soniodd ef am y cyfeillgarwch agos fu rhyngddynt ers dyddiau coleg - rhannu desg yn y coleg, rhannu *dressing gown*, rhannu gwely, rhannu popeth ond eu gwragedd! Roedd y cyfeillgarwch hwn yn werthfawr iawn iddo, ac fe fynegodd hynny mewn cyfres o bum englyn o'i waith ei hun.

**CYNWIL**

Erioed bu'r hen ddireidi - yn dy wên,
A dal mae'r hen egni,
Ac mae allwedd dy weddi
Yn dal yn dy galon di.

Buost drech nag afiechyd, - di-ball,
Di-bwyll wyt o ddiwyd,
Hedfan drwy fuan fywyd
A throi i bell deithiau'r byd.

Adwaenost y diwinydd, - neu enaid
Unig y nofelydd,
A gwnei estron athronydd
I Gymro'n ffynnon ei ffydd.

Os tirion dy dosturi - at y cloff,
At y claf mewn cyni,
Gyda dewrder yr heri
Y dewr fynn dy herio di.

Ym mhob ing, ym mhob angen,- enaid hoff,
Onid ti yw'r heulwen,
Onid ti o'n mebyd hen
Yw fy nghyfaill, fy nghefen.

*John Gwilym Jones*

# NEWYDDION YR URDD

## CLWB GYMNASTEG YR URDD, DE MORGANNWG

Ar ddiwedd 1995 sefydlwyd Clwb Gymnasteg Cynradd yr Urdd, De Morgannwg. Mae'r Clwb wedi ei sefydlu ar gyfer aelodau'r Urdd blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg y Sir ac yn cwrdd bob nos Wener yn Nghampfa Ysgol Isaf Glantaf. Mae'r clwb erbyn hyn ar ei ail dymor llwyddiannus efo dros 35 o aelodau brwdfrydig. Hoffai'r Urdd ddiolch yn fawr iawn i Gaynor Jones a Dai Williams (athrawon chwaraeon Glantaf) am ddysgu'r plant.

## ADRAN YR URDD, LLANDAF

Mae'r adran yn cwrdd bob nos Lun yng Nghanolfan yr Urdd rhwng 6.00 a 7.00 o'r gloch ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 ysgolion Pencae, Treganna, Coed y Gof a Melin Gruffydd. Mae'r adran wedi bod yn brysur iawn yn ystod y tymor diwethaf efo ymweliadau oddi wrth Menna Gwyn (BBC) a hefyd gan Cen Williams. Buom hefyd ar drip i nofio yn Llanishen ac i chwarae Quazar a Superbowl yn Rumney.



Clwb Gymnasteg Cynradd yr Urdd

## DYDDIADAU I 'W NODI

**19eg - 21ain Ebrill - Trip Penwythnos i 'Storey Arms'**
Mae'r penwythnos hwn wedi ei drefnu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 Glantaf i fynychu canolfan awyr agored ym Mannau Brycheiniog dan drefniant yr Urdd.

**27ain Ebrill - Trip yr Urdd i 'Oakwood Park'**
Trip ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion Cymraeg y Sir.

**Os hoffech fwy o wybodaeth am yr uchod ffoniwch Sian Jobbins, Swyddfa'r Urdd, ffôn: 236201**

**ARWERTHIANT AC ARDDANGOSFA**

Dydd Sadwrn, 27 Ebrill, 1996

Gwaith gan artistiaid a chrefftwyr rhyngwladol, cenedlaethol a lleol gan gynnwys Peter Prendergast, Ken Jones a Barbara Locke.

Capel y Methodistiaid, Y Coed Duon
10.00am - 4.00pm
Arwerthiant am 2.00pm
Mynediad £1 drwy raglen

Yr elw at
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Islwyn 1997

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**Dyma gip ar ragor eto o ysgolion Cymraeg y sir...**

## YSGOL GYNRADD Y WERN

Lleolir Ysgol Y Wern ym maestref Llanisien wrth droed mynydd Caerffili. Mae'r ysgol yng nghanol stad o dai Cyngor ar ochr ddwyreiniol y brif heol allan o Gaerdydd i Gaerffili ac yna i fyny i Gwm Rhymni.

Mae safle'r ysgol yn un agored a meysydd chwarae eang o gwmpas yr adeilad. Rhennir y safle gydag Ysgol Gynradd Cefn Onn.

Ar hyn o bryd mae 385 o blant yn mynychu'r ysgol a hwythau'n dod o Ogledd-ddwyrain y ddinas. Bu'r mwyafrif ohonynt yn ddisgyblion yn yr ysgolion meithrin lleol cyn cychwyn yn Y Wern yn bedair blwydd oed. Daw nifer sylweddol o'r plant yma o gartrefi Cymraeg eu cyfrwng a thua 55% o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Agorwyd yr ysgol yn wreiddiol ym mis Medi 1981 o ganlyniad i'r penderfyniad i rannu Ysgol Bryntaf yn bedair ysgol. Roedd 98 o blant yn yr ysgol ar y cychwyn a phump o athrawon. Erbyn hyn, tyfu fu hanes yr ysgol i ysgol ddwy ffrwd a phymtheg o athrawon ynddi. Mae Mrs Glesni Whettleton wedi bod yn brifathrawes arni o'r cychwyn.

Braint oedd cael bod yn rhan o'r twf cyntaf ac edrycha'r ysgol ymlaen at gydweithio'n agos gyda'r ysgolion Cymraeg eraill yn y brifddinas yn y dyfodol.



Ysgol Gynradd Y Wern *Llun: Robin Griffith*

## YSGOL PEN-Y-GARTH

Agorwyd yr ysgol hon yn wreiddiol yn 1969 fel uned yn Ysgol Gynradd Cogan. Symudwyd i'r adeilad presennol yn 1975. Adeiladwyd yr ysgol o'r newydd ar faes gwyrdd ar gyrion tref Penarth. Mr Peter Davies yw'r pennaeth, olynydd Mr Howard Goodfellow a fu'n brifathro arni o 1971 hyd Fedi 1994. Arwyddair yr ysgol yw 'Gorau Awen Gwirionedd'.

Daw'r disgyblion gan fwyaf o Landochau, Sili, Penarth a Dinas Powys. Cafwyd twf sylweddol yn nifer y plant dros y blynyddoedd a cheir 321 ohonynt ar hyn o bryd. Disgwylir cynnydd araf gyda threigl amser.

Estynnwyd meithrinfa'r ysgol yn ddiweddar a derbyniwyd addewid ynglŷn â datblygu dwy ystafell ddosbarth newydd yn ystod y flwyddyn a ddaw. Bydd yn rhaid wrth ad-drefnu'r fynedfa yn sgîl y diwygiadau ar y safle. Erbyn i'r nodiadau hyn ymddangos bydd yr ysgol dan ofal Awdurdod Addysg y Fro.

## YSGOL SANT CURIG

Agorwyd drysau hen safle Ysgol y Merched yn Y Barri i 43 o blant yn 1991 i ddechrau ysgol Gymraeg newydd yn Y Barri. Cynhaliwyd agoriad swyddogol yr ysgol ar 19eg Hydref 1992. Tyfodd yr ysgol yn gyflym ac erbyn hyn mae 321 o blant o'r ardaloedd cyfagos yn ei mynychu. Cafodd yr ysgol ei henw ar ôl Sant Curig, un o'r seintiau lleol a sefydlodd eglwys ym Mhorthceri ger Y Barri. Eleni fydd y flwyddyn gyntaf i blant o ysgol Sant Curig fynd i Ysgol Gyfun Glantaf ac maent yn edrych ymlaen yn eiddgar at fis Medi.

# YSGOL GLANTAF

## HWYL YR ŴYL

gan Aled Scourfield 12F, Llys Dyfrig

Wedi misoedd o hir baratoi a chwysu chwartiau am dynged y 'parti bechgyn' cyrhaeddodd y tensiwn uchafbwynt rhwng Chwefror 28ain a Mawrth 1af. Cynhaliwyd Gŵyl 'fawreddog' Glantaf ar y cyd gyda dathliadau Gŵyl Ddewi yr ysgol. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau a chystadlaethau, ac fe'u lleolwyd yn yr Ysgolion Uchaf ac Isaf ac yng Ngerddi Soffia.



Dafydd Elis - Enillydd Tlws yr Ysgol Isaf

Braf oedd gweld cymaint o ymroddiad a chydweithio ymysg llysoedd yr ysgol sef Dyfrig, Teilo, Illtud a Dewi. Man cychwyn yr ŵyl oedd y chwaraeon a gynhaliwyd yn yr ysgol ar fore dydd Mercher. Defnyddiwyd cyfleusterau gwych Gerddi Soffia i gynnal rhai o'r chwaraeon hefyd. Gwelwyd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn nofio'n hynod o 'egniol'. Wedi gweld eu perfformiad yn y pwll gellir dweud yn ddios na fyddant yn ymddangos ym mhwll Olympaidd Atlanta eleni! Fodd bynnag, uchafbwynt yr ŵyl oedd seremoni'r cadeirio a gynhaliwyd ar brynhawn dydd Gwener. Traddododd y beirniad, Mr Islwyn Jones o'r Wenfô, feirniadaeth adeiladol a chynhwysfawr, ac yn wir fe gafwyd teilyngdod. Enillwyd y gadair eleni gan "Trenant" (neu Catrin Rogers i'w chyfeillion) o Flwyddyn 12, llys Teilo, am gasgliad o ddarnau creadigol. Cafwyd canmol uchel am ei gwaith a hyderwn y gwelwn ei henw ymysg sêr llenyddol y dyfodol. Rhaid hefyd canmol enillydd tlws yr Ysgol Isaf, Dafydd Elis o lys Dyfrig, ac enillydd y Fedal Ddrama, Dafydd James o Flwyddyn 12, llys Teilo. Coronwyd yr ŵyl gan y newyddion mai llys Dyfrig oedd yr enillwyr teilwng. Rhaid llongyfarch penaethiaid y llys, Huw Roberts a Bethan Davies am eu hymroddiad a'u dyfalbarhad - nid gwaith hawdd yw ceisio rhoi trefn ar rai o ddisgyblion Glantaf!



Catrin Rogers a Dafydd James
*Llun: Robin Griffith*

Llys Teilo oedd enillwyr yr Eisteddfod a Llys Dewi oedd pencampwyr y cystadlaethau gwaith cartref.

Yr ydym i gyd yn ddyledus iawn i arweinyddion y llysoedd ac i'r athrawon am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd di-flino. Edrychwn ymlaen yn awchus at gystadlu brwd y flwyddyn nesaf.

### CYMYLAU

Cwmwlws, Mamatocwmwlws,
Cirostratws, Altocwmwlws,
Castelatws, Cirocwmwlws,
Cirws, Stratws ac Altostratws.

Dyna ddywed yr athro Daearyddiaeth.

Wrth im' syllu allan o'r ffenestr
Yn ystod ei wersi tragwyddol
Gwelaf fwy nag enwau gwyddonol
Gwelaf fyd tawel ond pwerus.

Gwelaf gastell mewn fflamau o dân
A sarff yn dianc ohono,
Gwelaf wg ar wyneb yn troi'n wên
Wrth i'r gwynt gwyllt ei ffurfio'n gelfydd.

Gwelaf ddau gwpan crisial
Yn taro yn erbyn ei gilydd
Nes eu bod yn ddarnau mân, A'r gwynt
Yn cludo ei gweddillion.

Clywais lais yr athro, "Diogyn
Edrych ar y 'Cirrus' fanna"'.
Ond yn wir pan edrychais i yno
Dim ond pysgodyn a welais i!

Dafydd Elis 8D — Llys Dyfrig

### YSGLYFAETH

Roedd yna ieuenctid yn swyno'r sir,
Lle llifodd ei angerddol gariad gynt.
Canodd bob dydd ei beraidd gân yn hir-
Pob nodyn hardd yn addfwyn fwytho'r gwynt.
Ei dir oedd iddo'n deyrnas ac yn waith,
Ei fywyd oedd y fferm lle'i ganed ef.
Pan wywodd gwedd y gŵr ar ben ei daith,
Distewi wnaeth y trydar a phob bref.
Cipwyd y corff i ffwrdd i'r uchel goed
Dan blu ehediad at newynog Dduw.
Dwyn ohonom un a fu'n dyst i'r oed
Ond wedi blino ar wyddonol fyw.
Nid ofnodd fyth grafangau'r hebog nef,
Cans nod ei hediad oedd ei achub ef.

Catrin Rogers Bl.12 — Llys Teilo

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Maes Gwerin Cymru

Cafwyd 46 miliwn o bunnau gan Gomisiwn y Milflwyddiant ddiwedd Chwefror i sicrhau y gallai Undeb Rygbi Cymru godi Stadiwm newydd yn y brifddinas, yn bennaf ar gyfer Agoriad a Rownd Derfynol Cwpan y Byd ymhen tair blynedd. Cost y Stadiwm fydd 106 o filiynau o bunnau, felly bydd yn rhaid i'r Undeb gyfrannu drigain miliwn - a ddylem ni ymfalchio yn y Maes Cenedlaethol rhwysgfawr hwn? Dylem, ond mae gwir angen ystyried yn ddwys holl oblygiadau'r cynllun, a chewch fy marn i am y rhain isod.

Chwaraewyd yr ornest ryngwladol gynta ar gae'r "Cardiff Arms" (enw tafarn yn Heol y Porth gerllaw) ar Ebrill 12fed, 1884, a chwblhawyd datblygu'r cae a ddechreuodd yn 1968, yn 1984, pan chwaraewyd gornest ddathlu rhwng Cymru a Thîm Llywydd yr Undeb ar Ebrill 7fed. Cost y datblygu oedd naw miliwn o bunnau, ac yr oedd y maes yn dal tua 57,000 o wylwyr cyn i Gyngor De Morgannwg fynnu na châi pobl sefyll ond ym mhen y dwyrain oherwydd diogelwch; golygai hynny mai 51,379 o dorf a ganiatawyd. Bydd y maes newydd â'i do symudol ar ongl sgwâr i hwn, ac fe fydd yn dal 75 o filoedd. Gwelodd 46 o filoedd Rownd Olaf y Cwpan yn 1987 yn Auckland, 60 mil yn Nhwicenham yn 1991, a 62,600 ym Mharc Elis, Johannesburg, y llynedd.



Bûm i yn y tri maes hwn i wylio'r Rowndiau Terfynol, ac mawr obeithio y caf weld yr un nesaf - fy olaf, mae hi'n siwr - yn fy mhrifddinas fy hun saith wythnos cyn diwedd y ganrif gythryblus hon. Cefais i'r syniad o'r enw "Maes Gwerin Cymru" o eiriau Arweinydd Cyngor De Morgannwg, Russell Goodway, a ddywedodd ddiwrnod cyhoeddi'r newyddion am gymorthdal Comisiwn Milflwyddiant ei bod yn ddiwrnod mawr i bobl Cymru ac "ei fod yn fwy na dim yn Stadiwm y bobl". Da fyddai gweld y geiriau hyn ar ei draws: "Maes Gwerin Cymru" - yn Gymraeg yn unig, bid siwr. Rhaid inni sicrhau y bydd popeth arall ynddo'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, ac mai gwerin Cymru a gaiff y cyfle cyntaf i brynu tocynnau ar gyfer y gornestau rhyngwladol ar ôl Cwpan y Byd, ac nid y cyfoethogion o Loegr a gwledydd eraill. Os y bwriad yw cael celloedd croeso yn y fan, coder y rheiny'r tu allan i'r stadiwm - ar lan Afon Taf, dyweder, lle gallai'r crachach-rygbi-undydd wylio'r chwarae ar y teledu.

Meddyliwch am y Rownd Olaf: Cymru'n erbyn y Crysau Duon - a'r canu - yna caem ni ein Tŷ Opera. Ond yn bwysicach na'r ddau fyddai Senedd Gwerin Cymru.

## PÊL-RWYD gan Angharad Dafydd-Styles

**Nwyfiant** Mae pêl-rwyd yn gêm gyflym a medrus iawn. Mae angen yr elfennau canlynol o nwyfiant i gyrraedd safon uchel o chwarae:

1. **Cryfder a Phŵer** i neidio, rheoli'r corff yn yr awyr ac i daflu'n gywir. Byddai'r elfennau hyn yn gymorth i neidio'n uchel, adlamu, cadw cydbwysedd a thaflu'n gywir.
2. **Cyflymdra** i symud yn gyflym mewn man cyfyng ac i symud yn ffrwydrol o'r unfan. Rhaid medru symud yn gyflym i'r chwith ac i'r dde gan osgoi'n sydyn ar yr un adeg.
3. **Hyblygrwydd ac Ystwythder** i fedru ymestyn ymhell i'r naill ochr a'r llall ac i droi'n gyflym i'r ddau gyfeiriad.
4. **Dygnedd** i barhau â safon uchel o fedr trwy gydol y gêm ac i weithio'n galed mewn cyfnodau byr, sydyn o weithgaredd. Mae prinder dygnedd yn gallu achosi gwneud penderfyniadau anghywir tua diwedd y gêm.
5. Rhaid peidio ag anghofio am **fedr**, sy'n angenrheidiol i bob chwaraewraig. Mae'n rhaid meddu ar fedrau pêl a medrau symud.

**Y Gymraeg**

A wyddoch chi fod rheolau'r gêm (y fersiwn iau hefyd) wedi eu trosi i'r Gymraeg a bod y mwyafrif o gyhoeddiadau Cymdeithas Pêl-rwyd Cymru yn rhai dwyieithog? Mae'r Gymdeithas yn flaengar yn hyn o beth!

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

Shwmae eto!

Wrth ddysgu'r Gymraeg mae pob dysgwr yn siwr o ddarganfod ei hun ar ganol brawddeg heb fod yn gallu mynd ymlaen achos nad yw'r priod-ddulliau - sy **ar flaen ei dafod** yn **ei fam iaith** - yn dod i'w feddwl mewn pryd.

Yr ydym yn mynd i edrych ar y **priod-ddulliau** y tro hwn, mae ambell un lliwgar a hyfryd i'w gael yn y Gymraeg.

Cofiwch nad oes modd cyfieithu **gair am air** o'r Saesneg pob tro, mae priod-ddulliau yn gallu bod yn wahanol iawn, fel yr un yn ein **cystadleuaeth - gweler islaw** .- Ydych chi'n gwybod yr ateb?

**GEIRFA**
ar flaen ei dafod - on the tip of his tongue
mam iaith - mother tongue
priod-ddulliau - idioms (sayings)
gair am air - word for word
cystadleuaeth - competition
gweler islaw - see below

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Ydych chi'n gwybod, (neu ydych chi'n gallu holi eich Tiwtor) beth yw


**'People in glass houses shouldn't throw stones'**

yn Gymraeg. Does dim eisiau cyfieithiad gair am air.

Mae **Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,** yn cynnig crys T neu fyg i'r tri pherson cyntaf gyda'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr dan ofal y Dinesydd gyda'ch atebion.

## Priod-ddulliau

Â'i ben yn ei blu - sulking, dejected
Ar bigau'r drain - on tenterhooks
Ar bob cyfrif - by all means
Bob yn ail - every other one
Ei orau glas - his very best
Gwneud cawl o bethau - to make a mess of things
Ara' deg - to take it slowly
Dros ben llestri - O.T.T.
Malu awyr - to waffle



Y Croesair gan Simon Cudicio, Canolfan Iaith Acen

**AR DRAWS**
1 NOW, AT THE MOMENT (2-3-1-4)
6 DOG (2)
7 CREAM (5)
8 PAGE (7)
9 DOCK (3)
13 THUNDER (5)
14 DEAR (6)
16 FIELD (3)
17 EXPLAIN (7)
18 FINGER (3)
20 ANGLESEY (4-3)
21 STREET (5)

**I LAWR**
2 SUMMER (3)
3 BROOK (4)
4 FOOD (4)
5 SCOTLAND (2-5)
6 SONG (3)
7 TO FLY (6)
10 WARM (6)
11 PRESENT (5)
12 SOMETIME (7)
15 RAINBOW (5)
18 BUS (3)
19 SEA (3)

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO

| | |
|---|---|
| **10 Ebrill 1996** | Taith i Gaerfyrddin<br>Ymweliad â Marchnad Caerfyrddin a Thalacharn *(Laugharne)*<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob nos Iau**<br>yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath *(Roath Park Hotel)*<br>Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob bore Gwener**<br>9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Ysgol Victoria, Penarth<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener**<br>Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn**<br>10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais *(The Hayes)*, Caerdydd.<br>Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** | Clwb Sadwrn ACEN<br>Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Unwaith y mis** | Clwb Siarad, Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau<br>Ffoniwch Gill 481280 est 236<br>(Trefnwyd gan Gonsortiwm De Morgannwg Cymraeg i Oedolion) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

# Welsh National *Opera* Cenedlaethol Cymru

**Cavalleria rusticana & Pagliacci**
Pietro Mascagni & Ruggiero Leoncavallo
Cenir yn Eidaleg gydag uwch-deitlau

**Faust**
Charles Gounod
Cenir yn Saesneg

**The Doctor of Myddfai**
Syr Peter Maxwell Davies
Libreto gan David Pountney
Cenir yn Saesneg

**The Rake's Progress**
Igor Stravinsky

**Theatr Newydd, Caerdydd**
**(01222) 87 88 89**
Tocynnau ar gael :
The Rake's Progress 27 Ebrill, 7.15pm
a The Doctor of Myddfai 5 Gorffennaf 7.15pm

**Theatr y Grand, Abertawe**
**(01792) 475715**
30 Ebrill - 4 Mai 7pm
Cavalleria rusticana, Pagliacci, Faust &
The Rake's Progress

**Theatr Gogledd Cymru, Llandudno**
**(01492) 872000**
9 - 13 Gorffennaf
Cavalleria rusticana, Pagliacci, Faust &
The Doctor of Myddfai

*Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Adran Farchnata, Opera Cenedlaethol Cymru ar*
***01222 464666.***



**CYMDEITHAS GOFFA ISLWYN**

# GWASANAETH COFFA ISLWYN

Eglwys Sant Theodore,
Ynys Ddu, Gwent
(Gadael yr M4 ym Mharc Tredegar a chymryd yr A467 am Risca)

Ebrill 21 am 3.00

Anerchir gan :

*Yr Athro Hywel Teifi Edwards*

*Cymerir rhan gan blant Ysgol Gyfun Gwynlliw, a threfnir gan Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.*



Bron-Brawf Cymru

## YDYCH CHI'N WRAIG DROS 50 OED?

MAE BRON-BRAWF CYMRU YN CYNNIG GWASANAETH SGRINIO'R FRON SY'N UNIGRYW AC O SAFON UCHEL AM DDIM I WRAGEDD SY'N 50 NEU'N HYN

*AM FWY O WYBODAETH, FFONIWCH NEU YSGRIFENNWCH AT EICH CANOLFAN SGRINIO'R FRON AGOSAF YNG NGHYMRU*

**CANOLFAN SGRINIO'R FRON - DE CYMRU,**
**18 FFORDD YR EGLWYS GADEIRIOL**
**CAERDYDD. CF1 9LJ**
**Ffôn: 01222 - 397222**

**Canolfan Sgrinio'r Fron - Gorllewin Cymru,**
**24 Heol Alexandra, Abertawe. SA1 5DY.**
**Ffôn: 01792 -459988**

**Canolfan Sgrinio'r Fron - Gogledd Cymru**
**Ffordd Maes Du, Llandudno. LL30 1QZ**
**Ffôn: 01492 - 860888**

***Mae Bron-Brawf Cymru yn rhan o Raglen Sgrinio'r Fron yr NHS***

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

WELSH LANGUAGE BOARD

## Croesawydd (Rhan Amser)

- Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn chwilio am berson i weithio fel croesawydd yn ei Swyddfa yn Heol Eglwys Fair yng nghanol Caerdydd. Golyga hyn weithio 22½ awr yr wythnos, bob prynhawn o ddydd Llun tan ddydd Gwener.
- Dylai'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau cyfathrebu da ac ar y gallu i weithio'n rhwydd gyda phobl ar bob lefel. Byddai profiad o weithio ar brosesydd geiriau yn fantais.
- Bydd y cyflog cychwynnol ar gyfer y swydd uchod yn £8,021 y flwyddyn (pro rata). Cynygir contract 6 mis i ddechrau, i'w adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- Dylech anfon manylion llawn o'ch gyrfa ynghyd â disgrifiad cynhwysfawr o'r hyn y gallech ei gynnig i'r Bwrdd.

**Gellir cael disgrifiad swydd a manylion pellach oddi wrth y Swyddog Personél a Gweinyddiaeth ar: (01222) 224744 Est. 2112**

**Dylech anfon ceisiadau, gan gynnwys enw dau ganolwr, at:**

**Miss Kate Carter**
**Swyddog Personél a Gweinyddiaeth**
**Bwrdd Yr Iaith Gymraeg,**
**Siambrau'r Farchnad,**
**Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF1 2AT**

**Erbyn: 30 Ebrill 1996**

Mudiad Ysgolion Meithrin
**Cylch Meithrin Treoda**
**Yr Eglwys Newydd, Caerdydd**

# Arweinydd Cylch

Mae Cylch Meithrin Treoda angen Arweinydd Cylch profiadol â'r cymwysterau cywir i gychwyn gweithio cyn gynted â bo modd. Mae telerau ac amodau gwaith atyniadol ar gynnig.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch Linda M Leach nawr ar 01222 529888 neu 01222 568022

## Y daith rydych wedi'i gohirio ers blynyddoedd ...

*Peidiwch ag oedi rhagor:*

PATAGONIA -mae'n fwy na gwlad,
mae'n fwy na breuddwyd -
mae'n brofiad heb ei ail.

Taith 17 Hydref - 5 Tachwedd 1996

Teithiwch, heb ofal yn y byd, gyda threfnwyr sy'n gwybod am y tir, yr hanes, y traddodiadau a'r wlad fel ag y mae heddiw.

Am fanylion, cysylltwch ag Elvey MacDonald, Gaiman, Ffordd Ddewi, Aberystwyth, Dyfed SY23 1EU. 01970 624766 ar y penwythnosau

CWMNI Rigoberta

gyda chefnogaeth
Cynllun Cam Ymlaen
Cyngor Celfyddydau Cymru

a **Cymorth Cristnogol**
yn cyflwyno
cynhyrchiad aml gyfrwng cynhyrfus

## BYD Y BANC

Drama newydd rymus **Gareth Miles**
Cyfarwyddwraig **Menna Price**

**Ebrill 26 a 27. am 8.30 yr hwyr**
EGLWYS GADEIRIOL BANGOR

**Mai 3 a 4. am 8.30 yr hwyr**
EGLWYS GADEIRIOL TŶ DDEWI

**Mai 10 a 11. am 8.30 yr hwyr**
EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

**Tocynnau : 01222 614435 neu 01248 361267**